

O BLE DAETH BODAU DYNOL?—YDI HI'N BWYSIG BE' 'RYDYCH YN EI GREDU?

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i sylweddoli fod dysgeidiaeth esblygiad yn sarhau bodau dynol ac nad ydi hi'n cynnig dim gobaith. Dangoswch fel mae'r Beibl yn rhoi mynegiant i olygwedd y Creawdwr ynglŷn â bodau dynol, a'i fod e'n dyrchafu'n bywydau a'n meddylfryd ni, a'i fod e'n cynnig gobaith gwirioneddol

MAE 'NA AMRYW O GREDOAU YNGLŷN Â'N TARDDIAD (5 mun.)

Mae 'na sawl ffurf ar ddamcaniaeth esblygiad: dethol naturiol a deddf trechaf treisied, mwtadiadau, cydbwysedd ysbeidiol (*ce* 21-3, 99)

Mae llawer o glerigwyr Pabyddol a Phrotestannaidd yn derbyn damcaniaeth esblygiad (*g95* 8/8 5; *w86* 4/1 12, 19)

Mae'r Beibl yn dysgu inni gael ein creu "ar ddelw Duw," gyda'r gallu gennym o'r cychwyn i adlewyrchu priodoleddau'r Creawdwr (Darllen Genesis 1:27)

Yn wahanol i'r anifeiliaid mi 'roedd Adda yn "fab Duw" (Luc 3:38)

Mae esblygiad yn dadlau'n groes i'r cofnod yn y Beibl sy'n disgrifio creu dyn a'i gwmp

'Roedd Iesu'n bresennol yn y creu ac yn llwyr gredu'r hanes yn Genesis, gan ddyfynnu ohono (Diar 8:22-31; Math 19:4-6; Ioan 8:58)

Mae e'n olrhain ei linach yn ôl at *ddyn*—Adda (Luc 3:23, 38)

MAE'R HYN 'RYDYM YN EI GREDU AM EIN TARDDIAD YN DYLANWADU ARNOM (7 mun.)

Wrth ddweud fod bodau dynol yn gydradd ag anifeiliaid mae esblygiad yn cael effaith ar y ffordd mae pobl yn meddwl amdany'n eu hunain (*g98* 6/22 7; *g95* 8/8 5-7)

Mae haneswyr yn cydnabod fod syniadau esblygol wedi newid agwedd pobl a'u hannog nhw i ymddwyn fel anifeiliaid (*g98* 6/22 4; *g95* 8/8 5-8)

Mae seicoleg esblygiad yn ceisio egluro ymddygiad dynol yn nhermau damcaniaeth esblygiad (*g98* 6/22 3-9)

Y ddadl ydi mai prif bwrpas bywyd ydi lluosogi genynnau drwy unrhyw fodd

Mae anfoesoldeb yn cael ei ystyried yn rhywbeth naturiol

'Dyw cariad rhieni'n cael ei ystyried yn ddim ond dichell y genynnau i sicrhau parhad yr hil

Mae rhai llyfrau hunangymorth wedi'u seilio ar seicoleg esblygol

Er hynny, mae rhai esblygwyr yn ofni canlyniadau cymdeithasol y seicoleg newydd

Rhaid i Gristnogion fod ar eu gwyliadwriaeth rhag syrthio i fagl gwag dwyll (Col 2:8)

GWENDIDAU MAWR Y MODEL ESBLYGIAID (10 mun.)

'Dyw esblygiad ddim yn bodloni ymchwil dyn am ystyr i fywyd (*g98* 6/22 5-6; *ct* 71-2)

'Does dim ateb i gwestiynau am ein corff rhyfeddol, yn enwedig ein hymennydd (Rhowch enghreifftiau; *g98* 6/22 6; *ct* 49-72)

Mae moesoldeb a chydwybod yn peri dryswch i esblygwyr (*ct* 68-9)

Mae marwolaeth yn achosi gofid i fodau dynol (*g98* 6/22 7-8)

'Roedd Darwin yn rhagweld y byddai bodau dynol "â thuedd ynddyn' nhw i wneud cynnydd i gyfeiriad perffeithrwydd" (*g95* 8/8 6)

Rhagddweud gau oedd hyn

Mae moesau wedi dirywio; mae rhyfeloedd ac erchyllterau wedi achosi colli bywyd ar raddfa heb ei thebyg, yn arbennig oddi ar 1914 (*g95* 8/8 7)

Yn gymharol ddiweddar, mae troseddau erchyll wedi digwydd yn enw glanhau ethnig (*g98* 10/22 3; *w95* 10/1 5)

MAE ATEBION Y BEIBL YN BODLONI (10 mun.)

Mae'r Beibl yn cydnabod fod rhai pethau sy'n gyffredin i fodau dynol ac anifeiliaid

Eneidiau ydi bodau dynol ac anifeiliaid (Darllen Genesis 1:20, 21, 24; NW 2:7 BCL) (*rs* 375)

Pan mae eneidiau'n marw, mynd yn ôl i'r llwch, sef anfodolaeth anymwybodol, mae dyn ac anifail (Preg 3:19, 20; 9:5)

Mae 'na nodweddion unigryw gan ddyn sy'n ei osod ar wahan i anifeiliaid

Oherwydd i fodau dynol gael eu creu ar ddelw Duw, mae'n nhw'n medru dangos rhinweddau duwiol—cariad, cyflawnder, doethineb, trugaredd (Diar 19:22; Micha 6:8)

Mae bodau dynol yn ffynnu ar gariad, pennaf rinwedd Duw (1Ioan 4:8; *g98* 6/22 10-11)

Mae gan fodau dynol anghenion ysbrydol (Math 4:4; 5:3)

Maen' nhw'n chwilio am ystyr i fywyd—mae'r Beibl yn diwallu'r angen hwnnw (Gen 1:26, 28; Salm 37:11, 29; Preg 12:13; Dat 4:11)

Mae bodau dynol yn dymuno byw am byth (Preg 3:11)

Cafodd yr ymennydd dynol ei greu i fedru dysgu'n ddiddiwedd (Rhowch enghreifftiau; *g98* 6/22 9)

Ond fe ddaeth bodau dynol yn gaeth i farwolaeth ac oferedd (Rhuf 8:20-22)

EIN TUEDD I WNEUD DRYGIONI—PAM? (6 mun.)

Yn y dechreuad cafodd bodau dynol eu creu yn berffaith (Darllen Deuteronomium 32:4)

Gwnaeth pechod ddifrod mawr i'n genynnau ni, fodau dynol, nid i enynnau anifeiliaid, gan ddod â nodweddion annymunol i'r amlwg (Darllen Deuteronomium 32:5; Pregethwr 7:29)

'Rydym ni'n gaeth i "gyfraith pechod" (Rhuf 7:21-23)

Yn union fel mae mecanwaith llywio gwallus yn camgyfeirio car, mae'r "gyfraith" hon yn ein gyrru ni ar gyfeiliorn (Gen 8:21)

Mae Satan wedi cymryd mantais ar y duedd hon, yn enwedig 'nawr yn ystod "y dyddiau diwethaf" (2Tim 3:1-5; Eff 2:2, 3; Dat 12:7-10, 12)

Mi fedrwn ni osgoi bod yn gaeth i gyfraith pechod drwy ymateb i ysbryd Duw (Rhuf 8:12, 13; Gal 5:22-25)

DIM OND GAN Y CREAWDWR MAE GOBAITH SICR AR GYFER Y DYFODOL (7 mun.)

Hap a damwain sy'n rheoli esblygiad; felly sut gall gynnig gobaith ar gyfer y dyfodol

Mae esblygiad yn niweidiol gan ei bod yn cyfiawnhau ymddygiad anifeilaidd ac yn mynd yn groes i'r gydwybod

Wrth roi "athrawiaeth iach" y Beibl ar waith medrwn brofi gwir hapusrwydd (Tit 2:1; Luc 11:28)

Dim ond Jehofah sy'n cynnig gobaith bywyd tragwyddol ar ddaear baradwys (Salm 37:11 *BCL*; Eseia 25:8; Dat 21:3, 4)

Trwy'r pridwerth, nid trwy gynnydd graddol esblygiad, mae cyrraedd bywyd tragwyddol (Math 20:28; Ioan 3:16)

Fe fydd llywodraeth y Deyrnas yn codi baich pechod a'i holl ddylanwad oddi ar ysgwyddau bodau dynol ffyddlon (Rhuf 8:21; Dat 22:1, 2)

Mi fydd 'na adfer meddwl a chorff i berffeithrwydd ac i lawn harmoni â'i gilydd ac â safonau Duw

Mi gaiff bodau dynol ufudd eu mabwysiadu gan Dduw yn feibion iddo ar y ddaear, ac fe fyddan' nhw'n ei ddilyn yn berffaith (1Cor 15:22-26; Eff 5:1, 2)

Beth am gychwyn troedio llwybr bywyd 'nawr drwy ddysgu gwybodaeth gywir am (dod i 'nabod) Jehofah Dduw ac Iesu Grist (Ioan 17:3; Col 1:9, 10)

(Glynwch yn glôs at y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)